



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government



# **SEREN**

---

# **SYLFAEN**

**RHAGLEN 2021/2022**

# SEREN

SYLFAEN ★ FOUNDATION

## Blynyddoedd 8 i 11

*Dewisodd Roman gwblhau'r dosbarthiadau mistr gwyddoniaeth ym mlwyddyn 10. Teimlai mai dyma'r pynciau yr oedd angen iddo weithio arnynt ychydig yn fwy er mwyn gwneud y gorau o'i TGAU. Mwynhaodd y 3 chwrs yn fawr. Roedd y cynnwys yn rhyngweithiol ac yn heriol ond teimlai bod y darlithwyr yn gwneud iddo deimlo'n gartrefol. Llwyddodd Roman i ddefnyddio ei sgiliau a'i wybodaeth o'r dosbarthiadau mistr ar gyfer ei astudiaethau TGAU ac fe welodd ef a'i athrawon wahaniaeth sylweddol yn ansawdd ei waith.*

*Erbyn hyn mae Roman yn mynd ymlaen i astudio Lefel A mewn ffiseg, mathemateg a chyfrifiadureg. Oherwydd ei brofiad gyda Seren a'r sesiynau dosbarth mistr mae'n teimlo'n hyderus ynglŷn â symud o'r ysgol i'r coleg.*

### Nicole Davies

Rhiant dysgwr Sylfaen Seren sydd bellach yn cymryd rhan yn Academi Seren

*Mae rhaglen Seren yn gyfle gwych i fyfyrwyr herio a datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Rwy'n cael y cyfle ffodus i gydlynu'r gweithgareddau ar gyfer Ysgol Gyfun Dwr y Felin yng nghanolfan Castell-nedd Port Talbot ac mae'r pecyn sy'n cael ei ddatblygu eleni yn wych. Mae yna rywbeth ar eich cyfer waeth beth yw eich diddordebau. Mae'r dosbarthiadau mistr yn cynnig meddwl dyfnach, mwy datblygedig ar gyfer pynciau mewn TGAU a Lefel A nad ydych efallai wedi'u hastudio o'r blaen. Gall gweithio gyda chyfoedion hŷn a mynychu digwyddiadau fel cystadlaethau trafod neu seminarau danio'r angerdd sydd gan fyfyrwyr dros eu dysgu. O ganlyniad, mae dealltwriaeth, gwytnwch a phenderfyniad myfyrwyr yn cael eu gwella wrth gymryd rhan yn Seren, gan adeiladu cyfranwyr rhagweithiol i'r gymdeithas gydag unigolion hyderus, sydd â syniadau ac atebion arloesol.*

### Mr A Rayson

Cydlynedd MAT a STEM, Athro Gwyddoniaeth Ysgol Gyfun Dwr y Felin

## BETH YW SYLFAEN SEREN?

**Bwriedir Sylfaen Seren ar gyfer myfyrwyr ym mlynnyddoedd 8-11 mewn ysgolion y wladwriaeth ar draws Cymru sy'n cefnogi datblygiad sgiliau gwerthfawr a gallu academiaidd ar lefel TGAU.**

Y bwriad yw darparu cymorth ac arweiniad i'ch galluogi i wneud dewisiadau gwybodus am eich TGAU pynciau Lefel A gyda'r amcan tymor hir o'ch cynorthwyo i wireddu eich uchelgeisiau addysg uwch a'ch gyrfa.

Mae'r rhaglen yn darparu ysbrydoliaeth a chynghor am opsiynau prifysgol a chyrсияu gradd, y cysylltiadau â gyrfaedd ar draws ystod eang o sectorau, a'r llwybrau posib sy'n agored i chi.

Er y gallai'r posibilrwydd o fynychu prifysgol ymddangos beth pellter i ffwrdd, yn enwedig i fyfyrwyr ym Mlwyddyn 8 neu 9, nid yw hi byth yn rhy gynnar i feddwl am wireddu breuddwyd gyrfa neu'r llwybr addysgol y gall fod angen ei ddilyn i gyrraedd yno. Bydd Seren yn eich cynorthwyo i ddatblygu sgiliau gwybyddol

gwerthfawr sy'n ofynnol ar gyfer eich TGAU a Lefel A megis meddwl dadansoddol a beirniadol, rhesymu, datrys problemau a thechnegau adolygu.

Datblygwyd adnoddau a gweithdai hefyd er mwyn gwella'ch sgiliau cyfathrebu megis ysgrifennu traethawd, a sut i lunio, cyflwyno a thrafod eich syniadau. Mae pob un ohonynt yn ymwneud â'r sgiliau sy'n ofynnol yn y brifysgol ac yn eich gyrfa i'r dyfodol.

Wrth wraidd y rhaglen mae'r ymrwymiad i ehangu eich gwybodaeth, eich annog i archwilio a dilyn eich diddordebau academiaidd, eich cynorthwyo i fagu hyder a'ch hunangred, a'ch annog i anelu'n uchel yn eich arholiadau TGAU ac ymdrechu i gyrraedd eich amcanion hir dymor.





## RHAGLEN SYLFAEN 2021/2022

### Trwy gydol y flwyddyn gallwch gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau wedi'u teilwra i'ch grŵp blwyddyn penodol.

Dyma flas o'r hyn y gallwch gymryd rhan ynddi...

- Cynhadledd Ar-lein Genedlaethol
- Sesiynau seiliedig ar yrfa ar ddod yn filfeddyg neu feddyg.
- 'Cysiau 'Llwybrau at leithoedd.
- Gweithdai wedi'u harwain gan lysgenhadon o MIT er enghraifft 'Deddfau Cynnig' neu 'Newid Hinsawdd'.
- Cystadlaethau cenedlaethol

ysgrifennu traethodau a gwaith creadigol.

- Gweithdai ymestyn a herio.
- Dosbarthiadau meistr pwnc benodol, tiwtorialau a sesiynau H&A i roi hwb i'ch astudiaethau.
- Teithiau rhithwir prifysgol ac amgueddfa.
- Arweiniad a chyingor gyrfaol.
- Adnoddau ar-lein i ddatblygu eich angerdd am bynciau.

### Byddwch hefyd yn derbyn cyfnodolyn adfyfyriol fydd yn eich galluogi i deilwra'ch profiad Seren ar eich cyfer eich hun ac adeiladu'ch llwybr i'r dyfodol.

**“Mae Seren yn blatfform gwych a rwyf yn hapus i'm merch fod yn rhan ohono oherwydd ei fod yn cynnig mewnwelediad a chefnogaeth wych yn ei haddysg, a chyfleodd ardderchog iddi gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau gan gynnwys dosbarthiadau meistr, sydd wedi ei chynorthwyo i gydnabod ei doniau. Credaf y bydd rhaglen Seren yn arwain fy mhientyn i wneud y dewisiadau cywir yng nghyswllt ei haddysg yn y dyfodol.”**

**Theresa Jenkins,** mam dysgwr Sylfaen blwyddyn 11.

## PEIDIWCH Â CHYMRYD EIN GAIR NI YN UNIG...

### Dosbarth meistr seicoleg

*“Rydw i nawr yn ystyried dewis Lefel A mewn seicoleg, ac yn gyffredinol mae'r dosbarth hwn wedi fy nghynorthwyo i ddeall pethau'n well am fywyd.*

*Fe'm helpodd i gael gwell mewnwelediad i seicoleg a hefyd i ddysgu sut y gall Seren fy helpu mewn addysg uwch.”*

### Dosbarth meistr cemeg

*“Roeddwn wrth fy modd yn cael gwneud arbrofion gartref, roedd yn ffordd wych o'n hannog i gymryd rhan ar-lein.*

*Roedd y pynciau'n ddiddorol iawn ac roedd yn cynorthwyo gyda fy ngwersi TGAU. Mae wedi fy helpu i ennill mwy o wybodaeth am yr hyn yr wyf am ei wneud pan fyddaf yn hŷn.”*

### Dosbarth meistr Saesneg

*“Datblygodd dosbarthiadau meistr fy ngwybodaeth ynglŷn â'r hyn fyddai astudio Saesneg yn y chweched dosbarth.”*

### Dosbarth meistr y gyfraith

*“Fe wnes i fwynhau'r sesiynau cyfraith yn fawr, yn enwedig yr astudiaethau achos a'r dadleuon am a oeddent yn ddiuog neu'n euog.”*

### Dosbarth meistr bioleg

*“Llwyddodd i blethu pethau ynghyd a gwneud cysylltiadau mewn bioleg nad oeddwn yn gwybod amdanynt cyn y sesiynau.”*


### Dosbarth meistr cymdeithaseg

*“Fe wnes i ei fwynhau'n fawr - mae'r dosbarthiadau meistr wedi fy helpu i benderfynu ar fy mhynciau Lefel A.”*

### Dosbarth meistr gwyddoniaeth

*“Mynychais y gweithdai gwyddoniaeth, yn benodol ar bwnc ffliw a brechu. Roedd yn ddiddorol iawn a gallwn weld sut mae rhannau o'r cwrs bioleg yr ydym yn eu hastudio ar hyn o bryd yn cyd-fynd â hyn, a hefyd yn cyd-fynd â'r hyn sy'n digwydd gyda mwntaniadau a brechiadau Covid-19.”*





Dilynwch ni ar:



[@RhwydwaithSeren](#) [@Seren\\_Network](#)



[facebook.com/serennetwork](https://facebook.com/serennetwork)



[@serennetwork](#)



[rhwydwaithseren.blog.llyw.cymru](http://rhwydwaithseren.blog.llyw.cymru)  
[serennetwork.blog.gov.wales](http://serennetwork.blog.gov.wales)

ESTYN AM Y SER